YSGOL MAESINCLA
ADRODDIAD BLYNYDDOL Y LLYWODRAETHWYR I'R RHIENI
2017-18

GOSODIR 'ADRODDIAD BLYNYDDOL Y LLYWODRAETHWYR I'R RHIENI' I'W DRAFOD AR AGENDA CYFARFOD CORFF LLYWODRAETHOL YSGOL MAESINCLA TYMOR YR HYDREF YN FLYNYDDOL. TREFNIR 'CYFARFOD BLYNYDDOL I'R RHIENI GAN Y LLYWODRAETHWYR' YN UNOL A'R ARWEINIAD DIWEDDARAF (PWYNT 18)

Y CORFF LLYWODRAETHU

DYMA RESTR O'R AELODAU OEDD AR Y CORFF LLYWODRAETHOL YN YSTOD 2017-18

	DYDDIAD APWYNTIO	**CYFNOD YN DOD I BEN**
Rhiant Lywodraethwyr : Mae'r rhain yn cael eu hethol drwy bleidlais y rhieni ac yn gwasanaethu am dymor o 4 blynedd. Elin Denham (bu I Elin adael yn ystod y flwyddyn) Tanya Lewis Fiona Davies 1 sedd wag	 01-09-2016 01-05-2015 01-01-2016	 31-08-2020 01-05-2019 01-01-2020
Llywodraethwyr A.A.Ll. Gwynedd : Penodir y rhain gan yr Awdurdod Addysg Lleol Cyngh. Cemlyn Williams Cyngh. Tecwyn Thomas* – penodedig gan Cyngh.Tudor Owen a sel bendith Pennaeth 1 x SEDD WAG – hysbyswyd yr AALl	 01-09-2017 01-09-2012	 31-08-21 31-08-16
Llywodraethwyr Cyfetholedig : Gwahoddir hwy i ymuno â'r Corff Llywodraethol gan yr aelodau eraill fel arfer am eu gwaith yn y gymuned. Dawn Lynne Jones – Cyfetholwyd yn dilyn enwebiad gan Gadeirydd y Corff Llywodraethol ac sel bendith Corff Llywodraethol cyfan	 01-09-2016	 31-08-2020
Cyngor Tref/Cymuned : Penodiad Cyngor Tref/Cymuned Cyngh. Stuart Sage	 01-09-2017	 31-08 –2021
Aelodau Sylfaenol : Etholir i gynrychioli'r Eglwys gan aelodaeth o'r Eglwys. Parch. Donaldson Elizabeth Daniel 1 SEDD WAG	 01-09-2016 01-02- 2016	 31-08-2020 01-02 -2020
Athro Lywodraethwr: Etholir o blith yr athrawon gan yr athrawon. Dylan Wyn Evans	 01-09.17	 31-08-21
Staff Ategol yr ysgol: Etholir o blith staff ategol yr ysgol gan y staff ategol. Cheryl Whitehead	 09–07-2014	 08-07-18
Y Pennaeth Mewn Gofal Manon Gwynedd		

Bu farw Cynghorydd Tecwyn Thomas yn ystod y flwyddyn addysgol 2017/18. Dymunai'r Corff Llywodraethol gydymdeimlo'n ddwys gyda'r teulu a chydnabod cyfraniad pwysig Tecwyn fel aelod ac fel Cadeirydd

1. Adroddiad ar weithredu o'r adroddiad olaf

Ni chafwyd unrhyw ymateb i'r adroddiad blynyddol blaenorol.
Nid oedd eitemau penodol i weithredu arnynt.

2. Y Llywodraethwyr

Gweler uchod restr o'r enwau a statws y llywodraethwyr ynghyd a'r dyddiad y daw eu cyfnod i ben.

Mae'r llywodraethwyr wedi cyfarfod pob hanner tymor yn ystod y flwyddyn. Mae'r pennaeth wedi adrodd yn dymhorol ac yn cynnwys adroddiadau ar rifau a phresenoldeb, materion Cwricwlaidd a chanlyniadau, lles, rheolaeth, staffio a chyllid yn ogystal ag adrodd ar lwyddiant yr ysgol, gweithgareddau a digwyddiadau. Mae cofnodion llawn o'r cyfarfodydd ar gael yn yr ysgol.

3. Clerc

Clerc y Corff Llywodraethol yw Miss Eleri Ann Jones. Gellir cysylltu â Miss Jones drwy gysylltu â'r Ysgol.
Cadeirydd y Corff Llywodraethol yw Cyngh. Tecwyn Thomas. Gellir cysylltu gyda Mr Thomas drwy gysylltu â'r

Ysgol neu anfon nodyn wedi ei gyfeirio ato drwy law Clerc y Corff.

4. Datganiad Ariannol

Gweler ATODIAD 1 yn rhannu gwybodaeth am gyllideb 2018/19
Gweler ATODIAD 2 yn rhannu gwybodaeth am gau'r cyfrifon yn 2017/18

Cronfa'r Ysgol - Mae'r gronfa wedi ei harchwilio yn ystod 2017/18 yn unol â'r gofyn statudol.

Rhoddion i'r ysgol: Bu'r ysgol yn ffodus iawn o dderbyn cymaint o gefnogaeth rhieni ac aelodau o'r gymuned i ddigwyddiadau amrywiol yn cynnwys sioeau, cyngherddau a ffeiriau yn ystod y flwyddyn 2017/18 - hoffai'r llywodraethwyr ddiolch yn fawr i'r rhieni yma ac i bawb a gyfrannodd. Mae'r ysgol yn gwneud yn fawr o'r cyfraniadau ac yn ystod y flwyddyn casglwyd £6255.53 tuag at wella darpariaeth ar gyfer y disgyblion.

Costau Teithio a Chynhaliaeth Llywodraethwyr: £0

5. Perfformiad Yr Ysgol / Canlyniadau

CANLYNIADAU ASESIADAU DIWEDD CYFNOD ALLWEDDOL

Cyfnod Sylfaen (Blwyddyn 2)

Mae'r adroddiad hwn yn defnyddio data 2017 ar gyfer gwybodaeth gymharol yr ALI a Chymru

Ysgol Gynradd Maesincla **Rhif yr ALI/Ysgol: 681/3005**
Gwynedd

Gwybodaeth gymharol yr ysgol: Deilliannau'r Cyfnod Sylfaen 2018

Canran o fechgyn, merched a disgyblion yn cyrraedd y deilliant disgwyliedig, o leiaf (Deilliant 5+):

	Bechgyn			Merched			Disgyblion		
	Ysgol 2018	ALI 2017	Cymru 2017	Ysgol 2018	ALI 2017	Cymru 2017	Ysgol 2018	ALI 2017	Cymru 2017
PSD	87	93	92	89	96	97	88	95	95
LCW	73	85	88	89	92	94	82	88	91
LCE	0	50	85	0	80	92	0	58	88
MDT	80	88	88	83	93	92	82	90	90
DCS	67	83	84	83	91	91	76	87	87



Perfformiad yr ysgol dros amser (2014 - 2018)



Nodiadau:

1. - = Dim data hanesyddol ar gael

2. Meysydd Dysgu: PSD = Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac annywiaeth ddiwylliannol; LCW = Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu (yn y Gymraeg); LCE = Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu (yn Saesneg); MDT = Datblygiad mathemategol; DCS = Dangosydd y Cyfnod Sylfaen. Er mwyn ennill y DCS, rhaid i ddisgybl gymeradd y deilliant disgwyliedig (Deilliant 5+), o leiaf, yn PSD ac MDT ill dau a naill ai LCW neu LCE.

3. Os nad oedd unrhyw ddisgyblion yn gymwys fe'u hasesu mewn perc ar gyfer blwyddyn benodol bydd y graff yn terfynu a dangos bwlch ar gyfer y flwyddyn honno.

Cyfnod Allweddol 2 (Blwyddyn 6)

Mae'r adroddiad hwn yn defnyddio data 2017 ar gyfer gwybodaeth gymharol yr ALl a Chymru

Ysgol Gynradd Maesincla **Rhif yr ALl/Ysgol: 881/3005**
Gwynedd

Gwybodaeth gymharol yr ysgol: Asesiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol 2018
Cyfnod Allweddol 2

Canran y bechgyn, merched a disgyblion sy'n cyflawni'r lefel disgwyliedig o leiaf (Lefel 4+):

	Bechgyn			Merched			Disgyblion		
	Ysgol 2018	ALl 2017	Cymru 2017	Ysgol 2018	ALl 2017	Cymru 2017	Ysgol 2018	ALl 2017	Cymru 2017
Saesneg	89	92	89	94	95	94	91	93	91
Cymraeg	89	88	89	94	94	95	91	91	92
Mathemateg	96	93	90	94	94	93	95	93	92
Gwyddoniaeth	96	93	91	94	95	94	95	94	92
DPC	89	91	87	94	94	92	91	92	90



Perfformiad yr ysgol dros amser (2014 - 2018)



Nodiadau:
1. Mae'r ffigurau ar gyfer Cymraeg yn cyfeirio at gyrhaeddiad Cymraeg iaith gyntaf yn unig
2. DPC = Dangosydd Pynciau Craidd. I ddibenion DPC, mae'n rhaid i ddisgybl gyflawni o leiaf lefel 4 disgwyliedig mewn Mathemateg a Gwyddoniaeth a naill ai Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf
3. Os nad oedd unrhyw ddisgyblion yn gymwys fel hanesau mewn pwnc ar gyfer blwyddyn benodol bydd y graff yn tarfynu a dangos bwlch ar gyfer y flwyddyn honno.

Presenoldeb Yr Ysgol 2017/18

Presenoldeb = 94.2%
Absenoldebau Heb Awdurdod = 0.8%

Mae'r ganran presenoldeb yn is na targed y Sir o 95%.

- Mae'r ganran yn is na tharged yr ysgol o 94.5%

Mae'r ganran absenoldeb heb awdurdod yn uwch na'r cymedr Sirol a'r Cenedlaethol. Fodd bynnag –

- O edrych ar y tueddiadau data dros dreigl 5 mlynedd a mwy mae'r ganran wedi parhau yr un fath ar flwyddyn flaenorol yn 2017/18, ac erbyn hyn y ganran isaf ar gofnod gan yr ysgol.
- Mae'r ganran o fewn cyrraedd rhesymol i gymedr Sirol a Cenedlaethol

7. Hybu Bwyta ac Yfed Iach Ysgol Maesincla

Darperir ffynon ddŵr i ddisgyblion blynyddoedd 3 i 6 a gosodwyd trefn mewn lle er mwyn sicrhau bod disgyblion yn cael mynediad at ddŵr yn y dosbarthiadau. Mae pob disgybl Cyfnod Sylfaen yn derbyn llefrith yn ddyddiol. Trefnir gaffi dyddiol i ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen a darperir ffrwythau a llysiau amrywiol.

Annogir bocsys bwyd iach ar draws yr ysgol ac hyrwyddir 'Bwydlen Cinio Ysgol Gwynedd'.

Mae'r ysgol wedi'i achredu ar 'CAM 4 Ysgolion Iach Gwynedd' ac yn gweithio ar gael achrediad Cam5 yn ystod y 2018 / 19.

Mae bwyta ac yfed yn iach yn destun trafodaethau a profiadau addysgol gwerth chweil ar draws yr ystod oedranau o wasanaethau ysgol gyfan i wersi gwyddoniaeth Cyfnod Allweddol 2.

8. Cysylltiadau Gyda'r Gymuned:

Bu nifer o gysylltiadau gyda'r gymuned yn ystod y flwyddyn gan gynnwys:

- Cefnogi elusennau lleol megis Plant Mewn Angen, Marie Curie, Banc Bwyd Caernarfon.
- Cyswllt Plas Pawb
- Ymweliadau bugeiliol gan yr heddlu lleol yn unol a'r rhaglen waith gytunedig.
- Ymweliad Gwasanaeth Tân Gogledd Cymru
- Nosweithiau Rhieni
- Cymryd rhan mewn digwyddiadau 'Maes Caernarfon'
- Paratoi at Eisteddfod yr Urdd
- Ymweliad ag addoldai lleol
- Datblygu gardd yr ysgol – O dan oruchwyliaeth Mrs Anna Williams
- Ymweld a Cartrefi Henoed.
- Cydweithio gyda CADW – Ymweliadau Castell Caernarfon a cydweithio ar brosiectau
- Cydweithio agos gyda grwp cymunedol 'Cofis Bach' - grwp drama
- Ymweliadau rheolaidd i'r dref i gynnal gwaith maes
- Cynnig profiad gwaith i ddisgyblion Ysgolion Uwchradd / Coleg Menai
- Wild Elements – gweithio a datblygu coetir gerllaw yr ysgol

Ceir rhestr lawn o'r ymweliadau a'r ymwelwyr yng nghofnodion llawn y llywodraethwyr ar gael o'r ysgol.

9. Targedau Perfformiad Yr Ysgol

TARGED + PERFFORMIAD YSGOL MAESINCLA 2017/18 AC YMLAEN							
CYFNOD SYLFAEN	2017/18		2018/19	CA2	2017/18		2018/19
MAES	TARGED	CANLYNIAD	TARGED	MAES	TARGED	CANLYNIAD	TARGED
DCS	90%	92%		DPC	93%	92%	
Personol a Lles D5+	90.9%	88%		Cymraeg L4+	91.3%	91.1%	
Personol a Lles D6+	48.5%	54.5%		Cymraeg L5+	39.1%	33.3%	
Iaith D5+	85%	82%		Saesneg L4+	91%	91%	
Iaith D6+	33.3%	33.3%		Saesneg L5+	40%	31.3%	
Mathemateg D5+	85%	82%		Mathemateg L4+	95.7%	95.7%	
Mathemateg D6+	33.3%	33.3%		Mathemateg L5+	41.3%	43.5%	
				Gwyddoniaeth L4+	93.9%	96%	

				Gwyddoniaeth L5+	40%	42.2%	

Yn dilyn proses yr ysgol o dracio cynnydd disgyblion dros gyfnod ac trafodaethau proffesiynol am adnabyddiaeth athrawon o botensial pob disgybl – gosodwyd y targedau uchod ar gyfer y disgyblion yn 2018/19. Ystyrir y targedau yn rhai heriol ond sydd o fewn cyrraedd.

	Targedau Presenoldeb Ysgol Maesincla		**Targed Absenoldeb Heb Awdurdod**	
	TARGED	**PERFFORMIAD**	**TARGED**	**PERFFORMIAD**
2014/15	95%	92.6%	1%	2.5%
2015/16	93.5%	94.1%	1%	1.0%
2016/17 (MEDI)	94.2%		0.8%	0.8%
2016/17(Rhagfyr)	94.5%	94.4%		
2017/18	94.5%	94.2%	0.6%	0.8%
2018/19	94.6%		0.7%	

Yn dilyn llwyddiant gweithdrefnau grymus yr ysgol yn arwain at gynnydd arwyddocaol yn y ganran presenoldeb yn 2017/18 penderfynodd 'Tim Mawr Presenoldeb Ysgol Maesincla' osod targed presneoldeb o 94.6% a gosod targed 'Absenoldeb Anawdurdodedig o 0.7%. Gweler CDY 2017/18 a 2018 /19 am y camau eisoes ar waith ac bwriedir eu gweithredu er mwyn cyrraedd y canranau hyn.

10. Nodau a Chyflawniadau Chwaraeon

Mae'r ysgol yn rhoi bri a statws i amrywiaeth o weithgareddau chwaraeon a gwneir defnydd o'r neuadd a tiroedd yr ysgol yn ogystal a chyfleusterau Canolfan Hamdden Arfon, i gynnig amrediad o chwaraeon.

'Rydym yn defnyddio'r Ganolfan Hamdden i ddatblygu sgiliau nofio ac hynny o oedran Cyfnod Sylfaen. Defnyddir neuadd yr ysgol ar gyfer gweithgareddau dawns a gymnasteg. Manteiswyd ar gyfleoedd i gymryd rhan mewn amrywiaeth o gystadlaethau yn 2017/18 yn cynnwys, rygbi, pel droed, pel-rwyd, hoci, traws gwlad, athletau, criced, dawns a gymnasteg. Daeth peth llwyddiant i'r ysgol yn 2017/18 ac yn benodol –

- Tim criced ysgol yn gyntaf yng nghystadleuaeth dalgylch Eryri.

Mae'r ysgol yn trefnu a hybu llu o glybiau chwaraeon - mae' r amserlen allgyrsiol i ddisgyblion yn gynhwysfawr ac yn sicrhau cyfleoedd i ddisgyblion o bob oedran. Mae'r ysgol yn manteisio ar bob cyfle i ddathlu llwyddiannau disgyblion e.e. cyswllt agos gyda 'Papur Dre' a drwy gyflwyniadau yn ystod gwasanaethau boreol. Mae'r ysgol hefyd wedi cydweithio gyda clybiau lleol i hyrwyddo amrywiaeth eang o chwaraeon yn cynnwys gwahodd Swyddog Pel-Droed lleol i gynnal clybiau gyda'r nosau ar dir yr ysgol.

11. Polisïau a Strategaethau

Mae gan yr ysgol gylch tair mlynedd o fabwysiadu ac adolygu polisiau yn cynnwys ystyriaeth blynyddol i rhai polisiau ble mae hynny'n ofyn statudol. Adolygwyd a mabwysiadwyd amryw o bolisïau'r ysgol yn ystod y flwyddyn 2017/18 yn unol â'r drefn yma ac yn cydymffurfio gyda'r gofynion statudol. Mae trefn yr ysgol yn gofyn i bob aelod o'r Corff Llywodraethol edrych ar nifer penodol o bolisiau ysgol yn dilyn pob cyfarfod ac i herio, gynnig gwelliant new fabwysiadu yn y cyfarfod dilynol.

Mae'r cylch tair mlynedd ar gyfer mabwysiadu polisiau ar gael ar y wefan ysgol a copïau o bob polisï fabwysiadwyd yn 2017/18 ar gael yn yr ysgol drwy gais i'r Pennaeth.

Mae'r strategaethau ysgol gynhwysir rhan amlaf o fewn polisi yn cael eu hadolygu yn naturiol drwy'r weithdrefn nodir uchod. Yn ystod 2017/18 mae'r ysgol wedi adolygu a grymuso ei strategaethau ar gyfer 'Presenoldeb a Phrydlondeb'.

12. Dyddiadau'r Tymhorau

GWYLIAU YSGOL

	2018-19
TYMOR Y NADOLIG	**03/09/18 ~ 21/12/18**
Hanner Tymor	**29/10/18 – 2/11/18**
Gwyliau Nadolig	**24/12/18 – 04/01/19**
TYMOR Y GWANWYN	**04/01/2019 ~ 15/04/19**
Hanner Tymor	**25/02/19 – 01/03/19**
Gwyliau'r Pasg	**15/04/19 – 26/04/19**
TYMOR YR HAF	**26/04/2019 ~ 23/07/19**
Hanner Tymor	**27/05/19 – 31/05/19**
Gwyliau'r Haf	**23/07/19 – 31/08/19**

SESIYNAU'R YSGOL:

Sesiwn y Bore	**Sesiwn y Prynhawn**
9:00 – 11:30 (Meithrin)	12.30 – 3:00 (Meithrin)
9.00 - 12.00	1.00 - 3.00 (Cyfnod Sylfaen)
9.00 - 12.15	1.00 - 3.15 (Cyfnod Allweddol 2)

13. Newidiadau i'r Prosbectws Ysgol

Cyhoeddir llyfryn Gwybodaeth i Rhieni yn flynyddol sy'n cynnwys gwybodaeth am drafnidiaeth a rheolau'r ysgol. Rhoddir copi i blant sy'n cychwyn yn yr ysgol. Mae copi o'r llyfryn ar gael yn yr ysgol ac ar wefan yr ysgol.

Ar gyfer 2017/18 diweddarwyd y llawlyfr gyda'r newidiadau canlynol –

- Newidiadau i'r gweithlu
- Strwythurau dosbarthiadau

14. Cwricwlwm

Fel pob ysgol arall mae Ysgol Maesincla yn dilyn Cwricwlwm Cenedlaethol Cymru a'r Fframweithiau Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol. Mae crynodeb o gwricwlwm yr ysgol yn ein llawlyfr ysgol.

Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) yr ysgol: Amcan yr ysgol yw adnabod y plant gyda ADY yn fuan er mwyn gallu cynnig y ddarpariaeth orau a mwyaf cynhwysfawr y gellir ar eu cyfer gan helpu'r disgyblion gyrraedd eu llawn potensial. I'r perwyl hwn mae Cynlluniau Addysg Unigol neu Cynllun Gweithredu manwl yn cael eu paratoi ar gyfer y plant a byddwn yn adolygu'r rhain gyda'r rhieni.

Cyd-gysylltydd ADY Ysgol Maesincla yw Mrs Ellen Jones a Mrs Elizabeth Daniel yw'r llywodraethwr sydd yn gyfrifol am ADY. Ceir gopi o bolisi ADY yn yr ysgol.

Mae'r pwyslais ar i bob disgybl yn Ysgol Maesincla wneud cynnydd cadarn dda yn ystod pob blwyddyn addysgol. Mae'r ysgol yn targedu pob plentyn sydd ar gam anghenion '**Cymorth Ysgol'** (cymorth wedi ei drefnu a'i gyllido gan yr ysgol) neu '**Cymorth Ysgol +**' (cymorth gan yr ysgol a gan asiantaeth arall) i gyrraedd y lefelau disgwyliedig. Gydag ambell i eithriad, nid ydym yn gosod yr un targed i ddisgyblion sydd gyda **Datganiad** neu **CDU a Chymorth** (plant sydd â mynediad at gymorth ychwanegol cymhorthydd ADY dosbarth) yn enwedig yn yr agwedd o waith ble maent yn cael trafferthion. Fodd bynnag, disgwylir gynnydd cadarn dda gan bob plentyn yn ddieithriad, ac i'r perwyl hwn gosodir targedau heriol ond cyrraeddadwy i pob disgybl sydd ary gofrestr ADY.

Oherwydd amrywio yn y niferoedd ar fynediad i'r ysgol mae'r nifer ym mhob blwyddyn ysgol ac ym mhob dosbarth yn medru bod yn dra gwahanol.

Mae strwythurau dosbarthiadau Ysgol Maesincla yn newid o un flwyddyn i'r nesaf ac yn cynnwys tri o Grwpiau Annogaeth. Mae'r grwpiau hyn yn cyfarfod am gyfnodau penodedig yn wythnosol ac wedi'i trefnu yn: Grwp Cyfnod Sylfaen (disgyblion Derbyn hyd at Bl2), Grwp Annogaeth Blwyddyn 3 a 4, Grwp Annogaeth Blwyddyn 5 a 6. Amcan y grwpiau hyn yw datblygu sgiliau rhyngbersonol disgyblion yn cynnwys eu gallu i weithio'n annibynnol ac i gydweithio'n effeithiol. Mae pob disgybl sy'n mynychu Grwp Annogaeth yn cael mynediad llawn i'r Cwricwlwm.

Disgyblion Anabl:
Bydd yr ysgol yn sicrhau mynediad llawn i ddisgyblion sydd ag anableddau. Mae polisïau'r ysgol yn sicrhau na fydd disgyblion anabl yn cael eu trin yn llai ffafriol na'r disgyblion eraill

15. Categori Iaith

Mae'r ysgol yn ysgol ddwyieithog.

16. Defnydd o'r Gymraeg

Y Gymraeg yw prif iaith yr ysgol.

Y Gymraeg yw prif iaith Y Cyfnod Sylfaen – bydd plant nad ydynt yn siarad Cymraeg yn cael eu 'trochi' yn yr iaith a buan iawn y dônt i siarad yn rhugl.

Y Gymraeg yw prif iaith gyfathrebu yr ysgol. Nod siarter Iaith Ysgolion Cymraeg Gwynedd yw i bob plentyn siarad Cymraeg ar y coridorau ac allan ar yr iard. Mae'r ysgol yn parhau gyda camau penodol i hyrwyddo Siarter Iaith Gwynedd yn flynyddol.

Yn unol a Pholisi Iaith Gwynedd addysgir pob plentyn drwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd Saesneg yn cael ei chyflwyno yn anffurfiol ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen ac yn ffurfiol o Flwyddyn 3 ymlaen. Ein nod yw i bob plentyn fod yn rhugl ddwyieithog yn gadael yr ysgol.

Os bydd plentyn di-gymraeg yn dod i'r ysgol, bydd yn cael ei 'drochi' yn yr iaith yn y Cyfnod Sylfaen ac yn mynd i'r Uned Iaith leolir yn Ysgol Maesincla, am dymor yn Cyfnod Allweddol 2.

17. Toiledau'r Ysgol

Mae toiledau pwrpasol ar gyfer oedrannau Cyfnod Sylfaen. Mae cyflwr y toiledau yn dda iawn yn dilyn buddosdidadau dors y 3 mlynedd diwethaf.

Mae toiledau pwrpasol ar gyfer oedrannau Bl.3/4 ac Bl.5/6. Mae'r toiledau hyn ar wahan ar gyfer y bechgyn a'r merched ar gyfer disgyblion CA2.

Mae toiled anabl ar y safle.

Mae toiledau pwrpasol ar gyfer staff yr ysgol.

Bydd y toiledau yn cael eu glanhau yn ddyddiol.

18. YCHWANEGOL – Cyfarfod Blynyddol y Corff Llywodraethol i'r Rhieni

CYFARFOD 2017-18

Fe fydd cyfarfod yn cael ei drefnu ***yn ôl galw'r rhieni***:

Mae Adran 94 y Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 (y Ddeddf) yn gwneud newidiadau pwysig i'r trefniadau deddfwriaethol blaenorol oedd yn ymwneud â Chyfarfodydd Blynyddol y Rhieni/Llywodraethwyr. Mae'n darparu trefniadau newydd lle gall rhieni ofyn am gyfarfod gyda chorff llywodraethol.

Bydd angen i'r rhieni fodloni pedwar gofyniad statudol wrth alw cyfarfod sef:

- rhaid i rieni 10% o'r disgyblion cofrestredig, neu rieni 30 o'r disgyblion cofrestredig (pa un bynnag sydd isaf) arwyddo deiseb yn gofyn am gyfarfod;
- rhaid mai diben y cyfarfod yw trafod materion sy'n ymwneud â'r ysgol;
- y nifer fwyaf o gyfarfodydd y gall rhieni ofyn amdanynt o fewn unrhyw flwyddyn ysgol yw tri (3);
- rhaid bod yna ddigon o ddiwrnodau ysgol ar ôl yn y flwyddyn ysgol i ganiatáu cyfarfod.

At hynny:

- rhaid cynnal y cyfarfodydd cyn diwedd cyfnod o 25 niwrnod; mae'r cyfnod o 25 niwrnod yn cychwyn y diwrnod ar ôl derbyn y ddeiseb, ond nid yw'n cynnwys unrhyw ddiwrnod nad yw'n ddiwrnod ysgol;
- os oes angen cynnal cyfarfod arall o ganlyniad i ddeiseb wahanol, ni fydd y cyfnod o 25 niwrnod yn dechrau tan y diwrnod ar ôl cynnal y cyfarfod arall;
- rhaid bod digon o ddyddiau ar ôl yn y flwyddyn ysgol i gynnal cyfarfod cyn diwedd y cyfnod o 25 niwrnod;
- bydd cyfarfodydd yn agored i holl rieni'r disgyblion cofrestredig yn yr ysgol, y Pennaeth ac unrhyw un arall a wahoddir gan y corff llywodraethol;
- mae'n rhaid i hysbysiad y cyfarfodydd i'r rhieni gynnwys dyddiad, amser a lleoliad y cyfarfod ynghyd â'r mater neu faterion i'w trafod.

Bwriad y cyfarfod yw siarad am yr adroddiad a sut mae'r bwrdd llywodraethwyr, y pennaeth a'r awdurdod lleol wedi cyflawni ei swyddogaeth dros yr ysgol. Ceir fanylion pellach a chanllawiau pendant i'w dilyn wrth gynnal a gwneud cais am gyfarfod – croesawir rhieni i wneud cais ffurfiol am y canllawiau hyn drwy'r ysgol.

GWEITHREDIAD AR ÔL PENDERFYNIADU'R CYFARFOD BLYNYDDOL BLAENOROL

Nid oedd cais i gynnal cyfarfod yn 2017/18

3005 - YSGOL GYNRADD MAESINCLA

CYFRIFON TERFYNOL 2017/2018	Cyllideb 2017/2018	Addasiadau	Cyllideb Terfynol 2017/2018	Cyfanswm Gwariant 2017/2018	Gwahaniaeth
GWEITHWYR					
Cyflogau-					
Athrawon	**£686,601**	**£0**	**£686,601**	**£653,997**	**£32,604**
Athrawon Llanw	**£50,668**	**£0**	**£50,668**	**£44,572**	**£6,096**
Staff Ategol -					
Amser Cinio	**£23,049**	**£0**	**£23,049**	**£18,699**	**£4,350**
Cynorthwywyr Meithrin	**£395,330**	**£9,407**	**£404,737**	**£390,256**	**£14,481**
Cymorth Gweinyddol	**£25,822**	**£0**	**£25,822**	**£26,606**	**-£784**
Hyfforddwr/Goruchwylio/Cyffredinol	**£0**	**£0**	**£0**	**£0**	**£0**
Clerc Llywodraethwyr	**£1,070**	**£0**	**£1,070**	**£1,081**	**-£11**
Gofalwr (Goramser)	**£500**	**£0**	**£500**	**£321**	**£179**
Ardoll Prentisiaeth (0.5%)	**£4,500**	**-£4,500**	**£0**	**£0**	**£0**
ADEILADAU					
Cynnal & Chadw - cyfrifoldebau hanesyddol	**£10,000**	**£0**	**£10,000**	**£16,867**	**-£6,867**
Cynnal & Chadw - cyfrifoldebau newydd	**£11,524**	**£0**	**£11,524**	**£11,524**	**£0**
Cynnal & Chadw - gwasanaeth eiddo	**£4,468**	**£0**	**£4,468**	**£4,468**	**£0**
Costau Ynni -					
Olew	**£0**	**£0**	**£0**	**£0**	**£0**
Trydan	**£11,532**	**£0**	**£11,532**	**£14,345**	**-£2,813**
Nwy	**£5,813**	**£0**	**£5,813**	**£6,574**	**-£761**
Dwr	**£7,574**	**£0**	**£7,574**	**£4,048**	**£3,526**
Cynllun Rheoli Carbon	**£10,178**	**£0**	**£10,178**	**£10,178**	**£0**
Contract Glanhau	**£28,230**	**£0**	**£28,230**	**£28,230**	**£0**
Contract Gofalu	**£16,770**	**£0**	**£16,770**	**£11,920**	**£4,850**
Contract Cynnal Tir	**£3,590**	**£0**	**£3,590**	**£3,590**	**£0**
Defnyddiau Glanhau	**£330**	**£0**	**£330**	**£603**	**-£273**
Offer Ymladd Tan	**£720**	**£0**	**£720**	**£367**	**£353**
Trethi	**£17,220**	**£0**	**£17,220**	**£17,220**	**£0**
CYFLENWADAU A GWASANAETHAU					
Lwfans y Pen	**£54,000**	**£26,730**	**£80,730**	**£75,043**	**£5,687**
Dodrefn	**£860**	**£0**	**£860**	**£0**	**£860**
Post	**£155**	**£0**	**£155**	**£675**	**-£520**
Ffôn / Ffacs / Rhyngrwyd	**£1,700**	**£0**	**£1,700**	**£2,617**	**-£917**
CLG Swyddfa Ardal	**£7,401**	**£0**	**£7,401**	**£7,401**	**£0**
CLG Gwasanaeth Cyllidol	**£892**	**£0**	**£892**	**£892**	**£0**
CLG Rheoli Banc, Taliadau, Incwm.	**£304**	**£0**	**£304**	**£304**	**£0**
CLG Cyflogau a Personel	**£3,952**	**£0**	**£3,952**	**£3,952**	**£0**
CLG Integreiddio	**£0**	**£0**	**£0**	**£0**	**£0**
CLG Arlwyaeth	**£52,963**	**£0**	**£52,963**	**£52,963**	**£0**
CLG Llyfrgelloedd	**£99**	**£0**	**£99**	**£99**	**£0**
CLG Archifau	**£251**	**£0**	**£251**	**£269**	**-£18**
CLG Unedau Iaith	**£0**	**£122,183**	**£122,183**	**£122,183**	**£0**
Pyllau Nofio a Chwaraeon	**£2,703**	**£0**	**£2,703**	**£3,995**	**-£1,292**
Gwasanaeth Cerdd	**£0**	**£0**	**£0**	**£0**	**£0**
CLG Cefnogaeth Technoleg	**£3,273**	**£0**	**£3,273**	**£3,274**	**-£1**
Gwasanaeth Rhwydwaith Ysgolion	**£7,383**	**£0**	**£7,383**	**£7,383**	**£0**
ARIAN WRTH GEFN	**£0**	**£34,197**	**£34,197**	**£0**	**£34,197**
CYFANSWM GWARIANT	**£1,451,425**	**£188,017**	**£1,639,442**	**£1,546,516**	**£92,926**
GOSODIADAU	**£0**	**£0**	**£0**	**£0**	**£0**
RHODDION / INCWM ARALL	**£0**	**£0**	**£0**	**£0**	**£0**
INCWM GWE	**£0**	**-£7,275**	**-£7,275**	**-£7,275**	**£0**
DEFNYDD O FALANSAU	**-£74,727**	**£74,727**	**£0**	**£0**	**£0**
GRANTIAU	**-£218,394**	**-£160,902**	**-£379,296**	**-£379,296**	**£0**
LLÔG AR FALANSAU	**£0**	**£0**	**£0**	**-£402**	**£402**
CYFANSWM	**£1,158,304**	**£94,567**	**£1,252,871**	**£1,159,543**	**£93,328**
CARIO DROSODD I FLWYDDYN GYLLIDOL 2018/2019					**£93,328**

YSGOL GYNRADD MAESINCLA

CYLLIDEB 2018/2019	Cyllideb Drafft 2018/2019	Addasiadau	Cyllideb Terfynol 2018/2019
GWEITHWYR			
Cyflogau - Athrawon	£698,481	-£18,757	**£679,724**
- Athrawon Llanw - Premiwm Cynllun Absenoldebau	£32,535		**£32,535**
- Llanw Arall	£0		**£0**
- Amser Di-gyswllt Ysgol	£9,800		**£9,800**
- Anghenion Arbennig	£7,000		**£7,000**
- Staff Ategol - Staff Cinio	£25,355		**£25,355**
- Gweinyddesau / Cymorthyddion	£400,139	-£6,357	**£393,782**
- Clerigol	£26,971		**£26,971**
- Clerc Llywodraethwyr	£1,122		**£1,122**
- Gofalwr (Goramser)	£500		**£500**
ADEILADAU			
Cynnal a Chadw	£10,000		**£10,000**
Cynnal a Chadw - Adran Eiddo	£11,644		**£11,644**
CLG Gwasanaeth Eiddo	£4,627		**£4,627**
Costau Ynni - Trydan	£18,725		**£18,725**
- Nwy	£12,880		**£12,880**
- Dwr	£7,994		**£7,994**
Cynllun Rheoli Carbon	£10,178		**£10,178**
Contract Glanhau	£30,310		**£30,310**
Contract Gofalu	£12,340		**£12,340**
Contract Cynnal Tir	£3,670		**£3,670**
Defnyddiau Glanhau	£330		**£330**
Offer Ymladd Tan	£720		**£720**
Trethi	£17,730		**£17,730**
CYFLENWADAU A GWASANAETHAU			
Lwfans y Pen	£54,000		**£54,000**
Dodrefn	£860		**£860**
Post	£155		**£155**
Ffôn/ Ffacs a Rhwydwaith	£1,700		**£1,700**
CLG Swyddfa Ardal	£7,318		**£7,318**
CLG Gwasanaeth Cyllidol	£913		**£913**
CLG Rheoli Banc	£312		**£312**
CLG Cyflogau a Personel	£3,944		**£3,944**
CLG Integreiddio	£0		**£0**
CLG Arlwyaeth	£48,381		**£48,381**
CLG Llyfrgelloedd	£99		**£99**
CLG Archifau	£251		**£251**
Pyllau Nofio a Chwaraeon	£2,703		**£2,703**
Gwasanaeth Cerdd	£0		**£0**
CLG Cefnogaeth Technoleg	£3,200		**£3,200**
Gwasanaeth Rhwydwaith Ysgolion	£7,383		**£7,383**
Arian Wrth Gefn *(arian heb ei ymrwymo)*			**£0**
CYFANSWM GWARIANT	**£1,474,268**	**-£25,113**	**£1,449,155**
INCWM - Gosodiadau	£0		**£0**
INCWM - Arall	£0		**£0**
CYFANSWM CYLLIDEB NET	**£1,474,268**	**-£25,113**	**£1,449,155**
DYRANIAD	**£1,139,385**	**£21,429**	**£1,160,814**
GWAHANIAETH TYMOR HIR	**-£334,883**	**£46,542**	**-£288,341**
ADDASIADAU TYMOR BYR			
Defnydd o balansau		£56,023	**£56,023**
Grant Datblygu Disgyblion		£130,350	**£130,350**
Grant Gwella Addysg - Cyfnod Sylfaen		£101,968	**£101,968**
Grant Gwella Addysg - Eraill			**£0**
GWAHANIAETH 2018/2019	**-£334,883**	**£334,883**	**£0**

Derbyniwyd y Gyllideb gan Gorff Llywodraethol llawn yr Ysgol yn ei gyfarfod ar _____ (Dyddiad)

ARWYDDWYD : _____ (CADEIRYDD) _____ (PENNAETH

ANFON Y FFURFLEN HON YN ÔL : **Uned Gyllid Datblygu, Cyngor Gwynedd, Caernarfon,LL55 1SH**

	grant	defnydd	gweddill
Grant Gwella Addysg - Cyfnod Sylfaen damcaniaethol	£82,422	-£101,968	-£19,546
Grant Gwella Addysg - Arall	£19,545		£19,545
Cyfanswm Grant Gwella Addysg 2018/19	**£101,968**	**-£101,968**	**£0**
Grant Datblygu Disgyblion - 5-15oed	£102,350	-£130,350	-£28,000
Grant Datblygu Disgyblion - dan 5oed	£28,000		£28,000
Cyfanswm Grant Datblygu Disgyblion 2018/19	**£130,350**	**-£130,350**	**£0**

18